# Tîm Diogelu Iechyd Cyhoeddus Cymru
# Offeryn Gwella Ansawdd (Archwilio) Atal a Rheoli Heintiau
# Ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant ac Addysg yng Nghymru (2023) F2

## Archwilio cydymffurfiaeth â safonau Atal a Rheoli Heintiau mewn lleoliadau Gofal Plant ac Addysg

Nod yr Offeryn Archwilio Atal a Rheoli Heintiau (IP&C) canlynol yw annog hunanasesiad o leoliadau Gofal Plant ac Addysg yng Nghymru er mwyn hyrwyddo safonau atal a rheoli heintiau seiliedig ar dystiolaeth/arferion gorau, gan felly leihau'r potensial ar gyfer croes-heintio yn y lleoliadau. Mae gan leoliadau Gofal Plant ac Addysg yng Nghymru ddyletswydd gofal i reoli'r risg o haint drwy hyrwyddo gwaith atal a rheoli heintiau seiliedig ar dystiolaeth/arferion gorau ac felly atal, lle bynnag y bo'n bosibl, heintiau ymhlith dysgwyr a staff.

Argymhellir bod yr offeryn archwilio yn cael ei gwblhau gan berson yn y lleoliad a ddynodwyd yn arweinydd cyfrifol ar gyfer atal a rheoli heintiau:

- Dylai'r person sy'n cwblhau'r offeryn archwilio nodi sylwadau NEU gamau gweithredu ar gyfer pob cwestiwn yn y blwch a ddarperir; a llunio cynllun gweithredu er mwyn mynd i'r afael â meysydd o ddiffyg cydymffurfio.
- Argymhellir bod yr offeryn archwilio yn cael ei gwblhau bob tymor a bod unrhyw faterion y nodir bod angen gweithredu yn eu cylch yn cael sylw cyn gynted ag y bo'n ymarferol, yn unol â lefel y risg.
- Mae natur gymesur ac addasadwy'r offeryn archwilio hwn yn dibynnu ar faint a lleoliad y ddarpariaeth gofal plant ac asesiadau risg lleol a gynhelir gan y sefydliadau dan sylw.

Dylid defnyddio'r offeryn archwilio ar y cyd â'r dogfennau canlynol, fel y bo'n berthnasol:

- *Toiledau Ysgol: Canllawiau arfer da ar gyfer lleoliadau addysg yng Nghymru* (Llywodraeth Cymru, 2012) https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/toiledau-ysgol-canllaw-arfer-da-ar-gyfer-ysgolion-yng-nghymru.pdf (Defnyddiwyd y ddogfen olaf hon yn benodol ar gyfer y cwestiynau sy'n ymwneud â thoiledau a golchi dwylo. Dylid ystyried pob bloc toiled.)
- Canllawiau eithrio / A-Y heintiau cyffredin ICC
- Diogelu Iechyd mewn lleoliadau plant a phobl ifanc, gan gynnwys addysg.

## Dyfarniadau drwy werthuso

| Gwych | Da | Derbyniol | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| Mae yna weledigaeth glir ac mae polisi/gweithdrefnau ar waith ar gyfer datblygu prosesau atal a rheoli heintiau yn yr ysgol/lleoliad gofal plant. Maen nhw'n bodloni'n llawn yr holl ddisgwyliadau ac argymhellion statudol yn y canllawiau cenedlaethol presennol. Maen nhw'n cael eu rhannu â'r holl randdeiliaid perthnasol. | Mae yna weledigaeth glir ac mae polisi/gweithdrefnau ar waith ar gyfer datblygu prosesau atal a rheoli heintiau yn yr ysgol/lleoliad gofal plant. Maen nhw'n bodloni'r rhan fwyaf o'r disgwyliadau ac argymhellion statudol yn y canllawiau cenedlaethol cyfredol. Maen nhw'n cael eu rhannu â'r rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid perthnasol. | Mae yna weledigaeth ac mae polisi/gweithdrefnau ar waith ar gyfer datblygu prosesau atal a rheoli heintiau yn yr ysgol/lleoliad gofal plant. Maen nhw'n bodloni rhai disgwyliadau ac argymhellion statudol yn y canllawiau cenedlaethol presennol. Nid ydynt bob amser yn cael eu rhannu â'r rhanddeiliaid perthnasol | Nid oes gweledigaeth na pholisi/gweithdrefnau ar waith ar gyfer datblygu prosesau atal a rheoli heintiau yn yr ysgol/lleoliad gofal plant. Nid ydynt yn bodloni'r holl ddisgwyliadau ac argymhellion statudol yn y canllawiau cenedlaethol cyfredol. Nid ydynt yn cael eu rhannu â rhanddeiliaid perthnasol. |
| Mae'r gwaith o fonitro'r cyfrifoldeb hwn wedi'i amserlenni a'i gofnodi ac mae'n cynnwys yr holl randdeiliaid perthnasol. (Mae contractau sy'n ymwneud ag atal a rheoli heintiau hefyd yn cael eu monitro a'u hadolygu'n agos). Mae unrhyw faterion wedi'u cynnwys yng nghynllun gwella'r ysgol/lleoliad gofal plant a chaiff canlyniadau eu gwerthuso | Mae'r gwaith o fonitro'r cyfrifoldeb hwn wedi'i amserlenni a'i gofnodi ac mae'n cynnwys y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid perthnasol. (Mae contractau sy'n ymwneud ag atal a rheoli heintiau hefyd yn cael eu monitro a'u hadolygu). Mae unrhyw faterion wedi'u cynnwys yng nghynllun gwella'r ysgol/lleoliad gofal plant a chaiff rhai canlyniadau eu gwerthuso. | Mae'r cyfrifoldeb hwn wedi'i fonitro i ryw raddau, ond nid yw'n cael ei amserlennu na'i gofnodi fel mater o drefn a dim ond rhai o'r rhanddeiliaid perthnasol y mae'n ei gynnwys. (Mae contractau sy'n ymwneud ag atal a rheoli heintiau yn cael eu monitro a'u hadolygu ar sail ad-hoc). Mae materion yn cael eu cynnwys ym mhrosesau gwella'r ysgol/lleoliad gofal plant o bryd i'w gilydd, ond nid yw canlyniadau wedi cael eu gwerthuso bob amser. | Nid yw'r cyfrifoldeb hwn yn cael ei fonitro mewn unrhyw faes ac nid yw'n cynnwys rhanddeiliaid perthnasol. (Nid yw contractau sy'n ymwneud ag atal a rheoli heintiau yn cael eu monitro a'u hadolygu). Nid yw materion wedi'u cynnwys yng nghynllun gwella'r ysgol/lleoliad gofal plant ac nid yw'r canlyniadau'n cael eu gwerthuso. |
| Mae gan yr ysgol/lleoliad gofal plant adnoddau da ac mae cyfleusterau, offer ac adnoddau priodol ar waith i gefnogi prosesau atal a rheoli heintiau. | Mae gan yr ysgol/lleoliad gofal plant adnoddau eithaf da ac mae rhywfaint o gyfleusterau, offer ac adnoddau priodol ar waith i gefnogi prosesau atal a rheoli heintiau. | Mae gan yr ysgol/lleoliad gofal plant adnoddau digonol o ran cyfleusterau, offer ac adnoddau priodol i gefnogi prosesau atal a rheoli heintiau. | Nid oes gan yr ysgol/lleoliad gofal plant adnoddau da, ac nid oes cyfleusterau, offer ac adnoddau ar waith i gefnogi prosesau atal a rheoli heintiau neu maent yn amhriodol. |
| Mae pob aelod o staff neu bron y cyfan ohonynt yn ymwybodol o bwysigrwydd atal a rheoli heintiau yn yr ysgol/lleoliad gofal plant ac yn gweithredu arfer da yn unol â'r canllawiau cenedlaethol cyfredol. | Mae'r rhan fwyaf o aelodau staff yn ymwybodol o bwysigrwydd atal a rheoli heintiau yn yr ysgol/lleoliad gofal plant ac mae'r rhan fwyaf yn gweithredu arfer da yn unol â'r canllawiau cenedlaethol cyfredol. | Dim ond rhai aelodau staff sy'n ymwybodol o bwysigrwydd atal a rheoli heintiau yn yr ysgol/lleoliad gofal plant ac mae rhai yn gweithredu arfer da yn unol â'r canllawiau cenedlaethol presennol. | Nid oes unrhyw aelodau staff yn ymwybodol o bwysigrwydd atal a rheoli heintiau yn yr ysgol/lleoliad gofal plant ac nid ydynt yn gweithredu arfer da yn unol â'r canllawiau cenedlaethol cyfredol. |

## 1: Rheoli prosesau rheoli heintiau

| | Arfer Da | Gwych | Da | Derbyniol | Blaenoriaeth ar gyfer gwella | Amherthnasol | Sylwadau ar sut y cyflawnir hyn/ Cam gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1.** | Mae gan y lleoliad berson arweiniol a enwir sy'n gyfrifol am atal a rheoli heintiau.<br>• Mae'r person hwn wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth atal a rheoli heintiau; mae'n ymwybodol o'r canllawiau cenedlaethol ar gyfer rheoli heintiau ac yn gweithio yn ôl y canllawiau hynny; mae'n cynnal archwiliadau atal a rheoli heintiau rheolaidd ac yn rhoi camau gweithredu ar waith. | | | | | | |
| **2.** | Mae gan y lleoliad restr o rifau cyswllt lleol i gael cyngor ar atal a rheoli heintiau:<br>• E.e. Iechyd yr Amgylchedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru – Diogelu Iechyd, Gwasanaethau Glanhau ac Iechyd Galwedigaethol).<br>• Mae'r rhifau hyn ar gael yn rhwydd ac mae'r staff yn ymwybodol ohonynt. | | | | | | |
| **3.** | Mae'r lleoliad yn dilyn canllawiau'r Tîm Diogelu Iechyd (HPT) yn Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) ar yr amser a argymhellir y dylid cadw unigolion i ffwrdd o leoliadau oherwydd heintiau cyffredin.<br>• Yn cyfeirio at y canllawiau eithrio / A-Y heintiau cyffredin.<br>• Cysylltir â'r Tîm Diogelu Iechyd am gyngor yn ôl yr angen.<br>• Mae'r rheol 48 awr yn berthnasol i'r rhai sydd â salwch gastroberfeddol. | | | | | | |
| **4.** | Mae'r lleoliad yn cadw cofnod dyddiol o'r holl absenoldebau staff a disgyblion gan nodi'r rheswm (gan gynnwys salwch) fel y gellir gweld patrymau.<br>• Hysbysir y Tîm Diogelu Iechyd am frigiadau o achosion (2 neu fwy o achosion | | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | cysylltiedig). Cyfeirir at ganllawiau eithrio ICC<br>• Mae'r Tîm Diogelu Iechyd yn cael gwybod am glefydau hysbysadwy a chyfraddau uwch na'r arfer o ddolur rhydd a chwydu. | | | | | | |
| **5.** | Caiff gwybodaeth am yr amser a argymhellir y dylid cadw unigolion i ffwrdd o leoliad oherwydd heintiau ei rhannu'n rheolaidd â staff, rhieni/gofalwyr a disgyblion (e.e. drwy gylchlythyr/cyfryngau cymdeithasol, llawlyfr staff, swyddfa, ystafell staff ac ati.<br>• Gwneir cyfeiriad penodol at y rheol 48 awr ar gyfer salwch gastroberfeddol.<br>• Mae gofal ychwanegol yn cael ei gymryd ar gyfer staff beichiog a disgyblion agored i niwed.<br>• Cyfeirir at ganllawiau eithrio ICC | | | | | | |

## 2: Glanhau

### 2a: Glanhau cyffredinol

| | Arfer Da | Gwych | Da | Derbyniol | Blaenoriaeth ar gyfer gwella | Amherthnasol | Sylwadau ar sut y cyflawnir hyn/ Cam gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1.** | Mae contract glanhau ar waith gyda'r Awdurdod Lleol<br>NEU mae contract glanhau ar waith gyda chwmni allanol<br>NEU gwneir gwaith glanhau gan staff a gyflogir gan yr ysgol/lleoliad gofal plant. | | | | | | |
| **2.** | Gellir dangos glanhau effeithiol drwy gofnodion hyfforddi, cofnodion goruchwylio, taflenni cadarnhau, sicrwydd ansawdd fel bod tystiolaeth ar gael pe bai brigiad o achosion. Ar gyfer cwmnïau allanol, mae'r pennaeth/rheolwyr busnes yn cadarnhau bod hyn yn cael ei ddarparu fel rhan o'r contract. | | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **3.** | Caiff staff glanhau eu goruchwylio'n briodol a hyfforddiant priodol sy'n cael ei diweddaru o bryd i'w gilydd e.e. technegau glanhau, gweithdrefnau gweithio diogel, COSHH, manyleb glanhau a defnyddio cynhyrchion yn gywir, codi a chario, defnydd diogel o offer trydanol (e.e. peiriannau sgleinio), profion PAT ar offer trydanol ac ati. Ar gyfer cwmnïau allanol, mae'r pennaeth/rheolwyr busnes yn cadarnhau bod hyn yn cael ei ddarparu fel rhan o'r contract. | | | | | | |
| **4.** | Mae asesiadau risg priodol ar waith ar gyfer glanhau e.e. defnyddio peiriannau sgleinio, codi a chario. | | | | | | |
| **5.** | Mae gwasanaeth glanhau dyddiol ar waith er mwyn sicrhau bod safleoedd yn cael eu cadw'n lân, yn ddiogel ac yn hylan. | | | | | | |
| **6.** | Mae trefn lanhau wedi'i dogfennu **ar waith ac mae staff yn ei dilyn**. Mae'n nodi'r dull glanhau, y cemegau i'w defnyddio, y cyfarpar sydd ei angen a pha mor aml y dylid glanhau. | | | | | | |
| **7.** | Cyfleusterau glanhau:<br>• Ystafell neu gwpwrdd glanhau pwrpasol i storio offer<br>• Sinc pwrpasol (nid basn golchi dwylo) ar gyfer glanhau (e.e., i gael gwared â dŵr budr)<br>• Nid yw offer glanhau byth yn cael ei storio mewn toiledau ond y tu ôl i ddrysau clo.<br>• Mae offer glanhau ceginau yn cael ei gadw ar wahân i offer glanhau toiledau. | | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **8.** | Offer glanhau:<br>• Mae gan offer glanhau godau lliw/labeli ar gyfer ardaloedd dynodedig (e.e. mopiau, bwcedi, cadachau ac ati)<br>• Mae'r holl gadachau glanhau yn rhai nad ydynt yn rhwygo ac yn ddelfrydol yn rhai untro. Os defnyddir cadachau y gellir eu hailddefnyddio, rhaid cael proses addas ar gyfer dihalogi dyddiol.<br>• Defnyddir pennau mop untro neu caiff pennau mop y gellir eu hailddefnyddio eu golchi ar ôl pob defnydd.<br>• Mae pennau mop yn cael eu storio gyda phen y mop am i fyny (byth mewn bwced o ddŵr).<br>• Mae bwcedi mop yn cael eu cadw mewn cyflwr da ac yn cael eu glanhau, eu diheintio a'u sychu ar ôl pob defnydd.<br>• NID yw pennau mop y gellir eu hailddefnyddio yn cael eu defnyddio ar gyfer glanhau gwaed neu hylif corfforol, gan gynnwys chwyd, wrin ac ysgarthion. | | | | | | |
| **9.** | Mae cemegau glanhau yn cael eu storio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr ac mae taflenni data diogelwch cynnyrch yn hygyrch. Mae staff sy'n defnyddio'r cemegau yn cael cyfarwyddiadau ar eu defnyddio'n ddiogel. Mae COSHH ar waith ar gyfer pob cemegyn glanhau. | | | | | | |
| **10.** | Mae'r holl ddodrefn a ffitiadau mewn cyflwr da. Mae unrhyw beth na ellir ei olchi neu ei drwsio yn cael ei dynnu oddi yno | | | | | | |
| **11.** | Nid oes annibendod mewn unrhyw ardal gyffredinol yn y lleoliad fel y gellir glanhau arwynebau (lloriau, byrddau, cadeiriau) yn hawdd. | | | | | | |
| **12.** | Mae deunyddiau glanhau ar gael yn hawdd i'r holl staff yn ystod y diwrnod gwaith er mwyn sicrhau bod diheintio amserol yn digwydd. | | | | | | |
| **13.** | Mae carpedi'n cael eu hwfro'n ddyddiol a'u stemio'n rheolaidd (e.e. bob 6 mis) | | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **14.** | Mae trefn lanhau wedi'i dogfennu **ar waith ac yn cael ei dilyn** ar gyfer offer ystafell ddosbarth ac offer chwaraeon (e.e. ar gyfer teganau meddal a chaled, offer chwarae dŵr, offer chwarae tywod, clai chwarae, cyfarpar awyr agored), ac sy'n cynnwys trefniadau glanhau ychwanegol yn ystod brigiadau o achosion. | | | | | | |
| **15.** | Mae gweithdrefn ysgrifenedig ar waith ar gyfer glanhau gwaed neu hylifau corfforol ac mae staff yn gwybod sut i ymdrin â'r arllwysiadau hyn yn ddiogel. | | | | | | |
| **16.** | Mae citiau arllwysiadau ar gael yn rhwydd ar gyfer ymdrin ag arllwysiadau gwaed neu hylifau corfforol (e.e. ffedogau, menyg a chadachau untro, gronynnau arllwysiadau, diheintydd addas a thywelion papur).<br><br>Mae'r pecynnau arllwysiadau yn cael eu hailgyflenwi'n rheolaidd. | | | | | | |

## 2b: Glanhau toiledau / cyfleusterau golchi dwylo

| | Arfer Da | Gwych | Da | Derbyniol | Blaenoriaeth ar gyfer gwella | Amherthnasol | Sylwadau ar sut y cyflawnir hyn/ Cam gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1.** | Mae person/cwmni dynodedig yn gyfrifol am lanhau'r ardaloedd toiled. | | | | | | |
| **2.** | Mae trefn lanhau ysgrifenedig ar gyfer ardaloedd toiled.<br><br>Mae holl offer y toiledau, gan gynnwys seddau ciwbicl, yn cael eu glanhau'n drylwyr *o leiaf ddwywaith y dydd* sy'n cynnwys ar ddiwedd y dydd. | | | | | | |
| **3.** | Mae basnau golchi yn lân ar ddechrau pob dydd gyda phroses ar waith i archwilio a chynnal y safon hon yn ystod y dydd. | | | | | | |
| **4.** | Mae ardaloedd sy'n cael eu cyffwrdd yn aml â'r dwylo, fel handlenni fflysio, tapiau, handlenni drysau a biniau gwastraff yn cael eu glanhau a'u diheintio mor aml â phosibl, yn enwedig pan fyddant yn amlwg yn fudr. | | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **5.** | Mae staff yn gwisgo PPE wrth lanhau toiledau neu wrth wneud tasgau toiled. | | | | | | |
| **6.** | Mae'r amgylchedd toiled yn cael ei lanhau gyda deunyddiau a chyfryngau glanhau addas sy'n cael gwared yn effeithiol â mater organig (baw) ac yn lleihau halogiad â micro-organebau i lefel ddiogel. | | | | | | |
| **7.** | Mae gan yr holl offer glanhau a ddefnyddir mewn ardaloedd toiled godau lliw er mwyn osgoi eu defnyddio mewn rhannau eraill o'r lleoliad, ac mae cadachau a phennau mop yn rhai untro. | | | | | | |

## 3: Toiledau

## 3a: Cyfleusterau toiledau ar gyfer staff, disgyblion ac ymwelwyr yr ysgol – gorfodol

| | **SAFONAU GOFYNNOL GORFODOL**<br>***Rheoliadau Addysg (Mangreoedd Ysgol) 1999*** | **Gwych** | **Da** | **Derbyniol** | **Blaenoriaeth ar gyfer gwella** | **Amherthnasol** | **Sylwadau ar sut y cyflawnir hyn/ Cam gweithredu** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1.** | Nifer y toiledau at ddefnydd dysgwyr:<br>• Dysgwyr 5 oed neu hŷn: 1 toiled i bob 20 dysgwr<br>• Dysgwyr o dan 5 oed: 1 toiled i bob 10 dysgwr<br>• Mewn lleoliadau addysg arbennig: 1 toiled i bob 10 disgybl, waeth beth fo'u hoedran. | | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2.** | Nifer y basnau golchi dwylo sydd mewn cyfleusterau toiled:<br>Pan fo'r rhan fwyaf o ddysgwyr o dan 11 oed, dylai fod yr un nifer o fasnau ymolchi â thoiledau<br>Pan fo'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn 11 oed neu'n hŷn:<br>• Dylai ystafelloedd ymolchi sydd ag 1 toiled fod ag o leiaf 1 basn ymolchi<br>• Dylai ystafelloedd ymolchi sydd â 2 doiled fod ag o leiaf 2 basn ymolchi<br>• Dylai ystafelloedd ymolchi sydd â 3 neu fwy o doiledau fod ag o leiaf dwy ran o dair y nifer o fasnau golchi dwylo ag sydd o doiledau. | | | | | | |
| **3.** | Gwahanu cyfleusterau toiled gwrywod a benywod:<br>Dylai ardaloedd toiledau ar gyfer dysgwyr gwrywaidd a benywaidd wyth oed a hŷn fod ar wahân.<br>**Dalier* sylw: *nid yw hyn yn rhan o archwiliad rheoli heintiau, ond efallai y byddwch am ystyried eich cyfleusterau i gefnogi disgyblion traws.* | | | | | | |
| **4.** | Cyfleusterau toiledau ar wahân i staff:<br>Dylai toiledau staff, ar wahân i'r rhai sydd wedi'u dynodi ar gyfer mynediad i'r anabl, fod ar wahân i doiledau disgyblion. | | | | | | |
| **5.** | Mae gan staff, disgyblion neu ymwelwyr anabl doiledau a basnau golchi dwylo cwbl hygyrch y gellir eu cyrraedd yn gyflym ac yn hawdd o unrhyw le yn y lleoliad. | | | | | | |
| **6.** | Mae'r lleoliad yn cynnwys datganiad am gyfleusterau toiled yn adroddiad blynyddol y llywodraethwyr i rieni/ofalwyr. | | | | | | |

## 3b: Cyfleusterau toiledau ar gyfer staff, disgyblion ac ymwelwyr yr ysgol – arfer da

| | Arfer Da | Gwych | Da | Derbyniol | Blaenoriaeth ar gyfer gwella | Amherthnasol | Sylwadau ar sut y cyflawnir hyn/Cam gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1.** | Mae system ar waith i fonitro gweithrediad a glendid POB ardal toiled fel gwiriadau rheolaidd a ddogfennir a thystiolaeth bod camau gweithredu yn cael eu cymryd pan fo angen (e.e. glendid, digon o sebon hylif, papur toiled a thywelion papur; bod cloeon, fflysiau a sychwyr dwylo ac ati yn gweithio). | | | | | | |
| **2.** | Mae toiledau a ffitiadau o'r maint a'r uchder cywir i'r dysgwyr y mae disgwyl iddynt eu defnyddio (e.e. uchder toiled, y botwm fflysio o fewn cyrraedd ac yn hawdd ei ddefnyddio). | | | | | | |
| **3.** | Mae holl waliau, lloriau, nenfydau, drysau, mannau cyswllt ac ati ardal y toiled yn anhydraidd/ddim yn amsugno hylifau ac mae modd eu golchi, maent yn hawdd i'w glanhau ac yn gallu gwrthsefyll prosesau glanhau a diheintio rheolaidd. | | | | | | |
| **4.** | Mae gan bob toiled sedd - y rhai sydd ag agoriad ar flaen y sedd yw'r rhai mwyaf hylan. (Arfer gorau: mae caead ar bob toiled, ac eithrio toiledau anabl). | | | | | | |
| **5.** | Darperir papur toiled meddal mewn cynwysyddion sy'n cael eu gosod lle gellir eu cyrraedd yn hawdd. Dylid lleoli cwpwrdd y gellir ei gloi gerllaw ar gyfer cadw deunyddiau | | | | | | |
| **6.** | Nid oes unrhyw eitemau yn cael eu storio yn y toiledau (oni bai eu bod yn cael eu storio mewn cynwysyddion wedi'u selio neu gypyrddau y gellir eu glanhau). | | | | | | |

## 4: Cyfleusterau golchi dwylo a chawodydd

| | Arfer Da | Gwych | Da | Derbyniol | Blaenoriaeth ar gyfer gwella | Amherthnasol | Sylwadau ar sut y cyflawnir hyn/ Cam gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1.** | Mae basnau golchi dwylo yn yr un ardal â'r toiledau a'r wrinalau. | | | | | | |
| **2.** | Mae POB basn golchi dwylo yn gweithio'n iawn, yn lân, ac mae ganddynt ddŵr poeth ac oer. | | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **3.** | Mae POB basn golchi dwylo yn rhydd o annibendod.<br>*Dalier sylw:* ***dim ond*** *ar gyfer golchi dwylo y dylid defnyddio basnau golchi dwylo. Nid oes cwpanau / math arall o offer yn cael eu cadw yn y basnau golchi dwylo. Nid yw brwshys ewinedd yn cael eu darparu.* | | | | | | |
| **4.** | Er mwyn osgoi sgaldio, mae system rheoli dŵr poeth ar waith i sicrhau nad yw'r tymheredd yn fwy na 41°C o bob tap. | | | | | | |
| **5.** | Os defnyddir tapiau gwthio maent yn aros ymlaen yn ddigon hir i unigolion olchi eu dwylo'n iawn. | | | | | | |
| **6.** | Mae tapiau a dosbarthwyr sebon yn addas ar gyfer defnyddwyr sydd â gafael gwael, problemau cydsymud a/neu symudedd cyfyngedig. | | | | | | |
| **7.** | Darperir o leiaf un dosbarthwr sebon hylif sydd wedi'i osod ar wal rhwng dau fasn ymolchi. | | | | | | |
| **8.** | Dosbarthwyr sebon hylif untro gyda chetris sydd fwyaf priodol. Ni ddylid defnyddio sebon bar.<br>*Dalier sylw: gall sebon bar drosglwyddo haint o un person i'r llall. NI ddylid ychwanegu sebon at beiriannau sebon er mwyn cyfyngu ar groes-heintio.* | | | | | | |
| **9.** | Argymhellir tywelion dwylo papur ond mae angen eu hailgyflenwi trwy gydol y dydd. | | | | | | |
| **10.** | Os yw peiriannau sychu dwylo yn cael eu defnyddio mae'n rhaid iddynt fod yn 'addas i blant' a dylid cael rhaglen lanhau a chynnal a chadw briodol ar waith ar eu cyfer. | | | | | | |
| **11.** | Mae gan ardaloedd toiledau finiau gwastraff sydd â chaeadau ac sy'n cael eu hagor â throed ar gyfer taflu tywelion llaw ar ôl eu defnyddio. Os nad yw biniau â phedal troed yn addas i'w defnyddio gan blant bach, yna dylid ystyried dewis arall addas. Rhaid gwagio'r biniau gwastraff yn ddigon aml i osgoi gorlifo | | | | | | |
| **12.** | Mae canllawiau darluniadol syml yn cael eu harddangos yn yr holl ardaloedd toiledau ar gyfer dysgwyr a staff ynghylch pryd a sut i olchi eu dwylo. | | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 13. | Gofynnir i ddisgyblion olchi eu dwylo ar adegau priodol e.e. cyn brecwast, byrbryd, cinio, ar ôl chwarae yn yr awyr agored ac ati). | | | | | | |
| 14. | Mae dysgwyr iau a'r rhai sydd ag anghenion arbennig yn cael eu goruchwylio wrth olchi eu dwylo a defnyddio'r toiled. | | | | | | |
| 15. | Addysgir disgyblion am bwysigrwydd hylendid dwylo da a'r technegau cywir fel rhan o'r cwricwlwm. | | | | | | |
| 16. | NID yw hylif alcohol i rwbio dwylo yn disodli golchi dwylo. I'w ddefnyddio mewn amgylchiadau arbennig, dan oruchwyliaeth yn unig (Iechyd a Diogelwch, COSHH) | | | | | | |
| 17. | Mae dŵr cawodydd nad ydynt yn cael eu defnyddio'n aml yn cael ei redeg bob wythnos am 5 – 10 munud a dylid cadw cofnod o hyn er sicrwydd.<br>*Sylwer: Os yw hyn yn cael ei wneud am y tro cyntaf, mae angen asesiad risg legionella. Cysylltwch â'r Tîm Iechyd yr Amgylchedd lleol.* | | | | | | |
| 18. | Dylai fod cynllun ac asesiad risg ar waith ar gyfer unrhyw darfu wedi'i gynllunio neu darfu brys i'r cyflenwad dŵr sy'n effeithio ar y lleoliad addysg. | | | | | | |

## 5: Cynhyrchion ar gyfer mislif menywod a gwaredu'r cynhyrchion hynny

| | Arfer Da | Gwych | Da | Derbyniol | Blaenoriaeth ar gyfer gwella | Amherthnasol | Sylwadau ar sut y cyflawnir hyn/ Cam gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1.** | Darparu cynhyrchion ar gyfer y mislif :<br>• Gall pob ysgol yng Nghymru ddarparu cynhyrchion ar gyfer y mislif yn rhad ac am ddim i ferched, fel nad oes gofyn cael peiriant cynhyrchion ar gyfer y mislif (y telir amdano) yn unol â chanllawiau tlodi mislif.<br>• Lleoliadau addysg uwchradd: mae gan bob set o doiledau (gyda dau giwbicl toiled neu fwy) ar gyfer merched ddosbarthwr cynhyrchion ar gyfer y mislif.<br>• Lleoliadau addysg gynradd: mae gan o leiaf un set o doiledau ar gyfer merched wyth oed a hŷn ddosbarthwr cynhyrchion ar gyfer y mislif. | | | | | | |
| **2.** | Mae unedau gwaredu cynhyrchion ar gyfer y mislif ar gael ym mhob toiled ar gyfer merched o oed priodol. Nid yw biniau gwastraff cyffredin yn ddigonol. | | | | | | |
| **3.** | Mae unedau gwaredu cynhyrchion ar gyfer y mislif yn cael eu gwagio'n ddigon aml gan gwmni cofrestredig i'w hatal rhag gorlenwi neu ddrewi. | | | | | | |

## 6: Newid cewynnau/padiau ymataliaeth a damweiniau achlysurol

| | Arfer Da | Gwych | Da | Derbyniol | Blaenoriaeth ar gyfer gwella | Amherthnasol | Sylwadau ar sut y cyflawnir hyn/ Cam gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1.** | Mae ardal bwrpasol ar gyfer newid cewynnau/padiau ymataliaeth neu ddisgyblion sydd wedi gwlychu/baeddu gyda mynediad i sinc golchi dwylo yn yr un ardal. (I ffwrdd o ardaloedd chwarae neu ardaloedd paratoi/gweini bwyd. *Sylwer: gallai hwn fod yn doiled i bobl anabl, yn ardal mewn toiledau arferol.* | | | | | | |
| **2.** | Mae eitemau sy'n gysylltiedig â'r drefn newid wrth law (e.e. wedi'u storio mewn bocs plastig: menyg, ffedogau a chadachau untro, chwistrellyddion glanhau, papur glas, sebon hylif). | | | | | | |
| **3.** | Mae staff yn gwisgo PPE yn gywir (h.y. ffedogau a menyg untro). Mae'r rhain yn cael eu newid rhwng pob plentyn ac mae dwylo'n cael eu golchi â sebon a dŵr ar ôl tynnu'r PPE. | | | | | | |
| **4.** | Mae matiau newid yn rhai sy'n dal dŵr ac mewn cyflwr da ac yn addas i'r diben. | | | | | | |
| **5.** | Mae trefn newid ar gael ac yn cael ei dilyn gan staff. | | | | | | |
| **6.** | Mae matiau newid yn cael eu dadheintio a'u gorchuddio â rholyn papur cyn pob defnydd a rhwng unigolion. | | | | | | |
| **7.** | Mae padiau untro sydd wedi'u baeddu yn cael eu rhoi mewn bag plastig unigol (sach cewyn) ac yna mewn bag plastig arall a'u gwaredu mewn bin cewynnau priodol.<br>*Sylwer: Os cynhyrchir mwy na 7kg o wastraff, rhaid i'r lleoliad fod â bin pwrpasol ar gyfer cewynnau/padiau ymataliaeth.* | | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **8.** | Mae dillad wedi'u baeddu yn cael eu gosod mewn dau fag (un o fewn y llall) e.e. bag plastig a'u rhoi mewn ardal ddynodedig i ffwrdd o'r plant er mwyn atal croes-heintio ac i'w casglu gan y rhiant/gofalwr. Mewn rhai amgylchiadau mae eitemau o ddillad yn cael eu taflu. | | | | | | |
| **9.** | Mae gan ddisgyblion eu basged eu hunain o hufenau ac ati sydd wedi'u labelu'n glir gydag enw'r plentyn ac ni ddylid eu rhannu. | | | | | | |

## 7: Dŵr yfed

| | Arfer Da | Gwych | Da | Derbyniol | Blaenoriaeth ar gyfer gwella | Amherthnasol | Sylwadau ar sut y cyflawnir hyn/ Cam gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1.** | Mae person a enwir yn gyfrifol am ddŵr yfed yn y lleoliad. | | | | | | |
| **2.** | Mae label ar y tapiau mewn ardaloedd toiledau i ddweud na ddylid yfed y dŵr. | | | | | | |
| **3.** | **NID** yw cyflenwadau dŵr yfed o unrhyw fath wedi'u lleoli mewn ardaloedd toiled.<br>*Sylwer: dylai lleoliadau sicrhau bod cyflenwad o ddŵr yfed iachus ar gael, yn rhad ac am ddim, a dylid sicrhau bod union leoliad y dŵr yfed hwn yn cael ei gyfathrebu'n glir.* | | | | | | |
| **4.** | Cynghorir rhieni i ddarparu poteli dŵr y gellir eu hailddefnyddio (h.y. nid poteli plastig untro). | | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **5.** | Ar gyfer poteli dŵr unigol sy'n cael eu cadw yn y lleoliad:<br>• Yn ddelfrydol, dylid eu golchi mewn peiriant golchi llestri neu eu golchi ar ddiwedd y dydd mewn dŵr poeth a glanedydd, eu rinsio a'u gadael i sychu wyneb i waered.<br>• Dylid eu llenwi yn y bore gyda dŵr yfed wedi'i gymryd o'r prif gyflenwad dŵr.<br>• Dylid eu labelu gydag enw'r dysgwyr.<br>NEU<br>• Dylai'r plant fynd â'u poteli personol adref gyda nhw bob dydd.<br>• Dylid darparu gwybodaeth i rieni am olchi poteli a pha mor aml y dylid gwneud hynny. | | | | | | |
| **6.** | Yn ddelfrydol, dylai peiriannau oeri dŵr fod wedi'u cysylltu â'r cyflenwad dŵr yn hytrach na defnyddio dŵr potel. Dylid glanhau peiriannau oeri dŵr bob dydd fel mater o drefn ac mae contract cynnal a chadw ar waith ar eu cyfer. ( sy'n cynnwys newid hidlydd) | | | | | | |
| **7.** | Mae peiriannau oeri dŵr yn cael eu draenio ar ôl unrhyw gyfnod pan fo'r lleoliad ar gau (tua. 3L). | | | | | | |
| **8.** | Mae ffynhonnau dŵr yn cael eu glanhau bob dydd fel mater o drefn ac mae ganddynt y gwasgedd dŵr cywir i sicrhau llif dŵr digonol. | | | | | | |

## 8: Diogelwch bwyd (heblaw am brydau ysgol)

| | Arfer Da | Gwych | Da | Derbyniol | Blaenoriaeth ar gyfer gwella | Amherthnasol | Sylwadau ar sut y cyflawnir hyn/ Cam gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1.** | Mae arferion diogelwch bwyd yn ystod yr holl waith paratoi a gweini bwyd yn y lleoliad e.e. brecwast, byrbrydau, clwb ar ôl ysgol, clwb/gwersi coginio. Mae hyn yn cynnwys monitro a chofnodi'r tymheredd ar adeg gweini bwyd. | | | | | | |
| **2.** | Darperir ardaloedd pwrpasol ar gyfer paratoi bwyd a chypyrddau/oergelloedd storio bwyd. Dylid sicrhau bod gwiriadau tymheredd oergelloedd yn cael eu cwblhau a'u cofnodi yn unol â chanllawiau'r ASB. | | | | | | |
| **3.** | Mae amserlen lanhau ar waith ar gyfer ardaloedd paratoi bwyd, gan ddefnyddio offer â chodau lliw sy'n cael eu storio ar wahân i offer glanhau toiledau. | | | | | | |
| **4.** | Mae ffedogau ac offer diogelu priodol ar gyfer y pen/barf yn cael eu gwisgo gan staff sy'n paratoi neu'n gweini bwyd, ac mae dwylo'n cael eu golchi cyn ac ar ôl y tasgau hynny. | | | | | | |
| **5.** | Mae staff sy'n paratoi neu'n gweini bwyd wedi cael hyfforddiant diogelwch bwyd lefel 2. | | | | | | |
| **6.** | Dylid sicrhau bod yr holl fwyd o fewn dyddiad dod i ben / dyddiad defnyddio olaf a bod y stoc yn cael ei gylchdroi'n briodol. | | | | | | |
| **7.** | Mae pecynnau cinio yn cael eu cadw i ffwrdd o'r gwres. Cynghorir rhieni/gofalwyr i ddarparu pecynnau rhew/bagiau oer wedi'u hinswleiddio. | | | | | | |

## 9: Anifeiliaid anwes, ymweliadau fferm/sŵ a rheoli plâu

| | Arfer Da | Gwych | Da | Derbyniol | Blaenoriaeth ar gyfer gwella | Amherthnasol | Sylwadau ar sut y cyflawnir hyn/ Cam gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1.** | Mae polisi ac asesiad risg ar waith ar gyfer anifeiliaid sy'n cael eu cadw yn y lleoliad. Yn cwmpasu: cynnal iechyd anifeiliaid, lleihau'r risg o groes-heintio rhwng anifeiliaid a dysgwyr/staff, rheoli ymddygiad anifeiliaid, yswiriant ac ati. | | | | | | |
| **2.** | Mae person enwebedig yn gyfrifol am anifeiliaid a gedwir yn y lleoliad. | | | | | | |
| **3.** | Mae polisi ac asesiad risg ar waith ar gyfer ymweliadau â ffermydd neu sŵau. | | | | | | |
| **4.** | Mae contract priodol ar waith ar gyfer rheoli plâu. | | | | | | |

## 10: Rheoli gwastraff

| | Arfer Da | Gwych | Da | Derbyniol | Blaenoriaeth ar gyfer gwella | Amherthnasol | Sylwadau ar sut y cyflawnir hyn/ Cam gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1.** | Mae trefn ar waith ar gyfer gwagio biniau ar ddiwedd y dydd. | | | | | | |
| **2.** | Mae menyg a ffedogau untro yn cael eu gwisgo wrth wagio neu lanhau biniau. | | | | | | |
| **3.** | Mae gwastraff yn cael ei storio mewn ardaloedd diogel nad ydynt yn hygyrch i ddisgyblion, anifeiliaid na'r cyhoedd. | | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 4. | DIM OND i gynhwysydd offer miniog cymeradwy y caiff offer miniog/nodwyddau eu gwaredu iddo ac mae'r cynhwysydd yn cael ei gasglu pan fydd yn ¾ llawn gan gwmni/gwasanaeth cymeradwy.<br><br>Mae'r cynwysyddion hyn wedi'u labelu'n gywir a'u storio'n ddiogel i ffwrdd o ddysgwyr/y cyhoedd.<br><br>Mae staff allweddol wedi derbyn hyfforddiant ar reoli offer miniog yn ddiogel ac mae gweithdrefn ysgrifenedig ar waith ar reoli'n ddiogel offer miniog a chynwysyddion offer miniog ynghyd ag ymdrin ag anafiadau o offer miniog. | | | | | | |

## 11: Teithiau / gwibdeithiau tramor

| | Arfer Da | Gwych | Da | Derbyniol | Blaenoriaeth ar gyfer gwella | Amherthnasol | Sylwadau ar sut y cyflawnir hyn/ Cam gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Mae'r cwmni teithio sy'n trefnu a'r rhanddeiliaid yn cael eu hasesu yn erbyn Safonau Diogelwch. Mae gan y cwmni dystiolaeth o'r defnydd cywir o safonau diogelwch.<br><br>Sylwer. Mae safonau'r Fforwm Teithio Ysgol wedi cael eu mabwysiadu fel meincnod ar gyfer pob cwmni sy'n gweithredu teithiau Astudio, Chwaraeon a Diwylliannol gan wobr Bathodyn Ansawdd y Cyngor Dysgu y tu allan i'r Ystafell Ddosbarth. Mae Safonau Prydeinig 8848 yn darparu fframwaith i gwmnïau teithio ei ddefnyddio i reoli'n gywir risgiau ar deithiau antur dramor. | | | | | | |
| 2. | Cyn y daith, dylai'r holl staff a disgyblion fynychu sesiwn i baratoi ar gyfer y daith a fydd yn rhoi arweiniad llafar ac ysgrifenedig a gwybodaeth glir y bydd ei hangen arnynt; gan gynnwys yr agweddau ar iechyd a diogelwch ac atal a rheoli heintiau, y risg o haint a sut i'w osgoi – h.y. hylendid sylfaenol; pwysigrwydd golchi dwylo. | | | | | | |
| 3. | Mae person a enwir yn gyfrifol am iechyd a diogelwch a rhoi cymorth cyntaf ac wedi cael hyfforddiant priodol i wneud hynny. | | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **4.** | Addysgir disgyblion am bwysigrwydd hylendid dwylo da a'r technegau cywir (gan gynnwys pryd, sut a pham y dylid defnyddio hylif alcohol i rwbio dwylo). | | | | | | |
| **5.** | Rhaid cynnal asesiad risg ar bob gweithgaredd o safbwynt Iechyd a Diogelwch ac Atal a Rheoli Heintiau cyn y gweithgaredd, gan gynnwys: cyswllt ag anifeiliaid, nofio a chwaraeon dŵr. | | | | | | |
| **6.** | Rhaid cynnal asesiad risg ar gyfer pob achos o baratoi, prynu a bwyta/yfed bwyd a dŵr/diodydd o safbwynt Iechyd a Diogelwch ac Atal a Rheoli Heintiau cyn y gweithgaredd gan gynnwys: trin dŵr a dogfennaeth, dim ond yfed dŵr potel a'r amgylchedd lle bydd yr yfed/bwyta'n digwydd. Mae'r holl fwyd a baratoir gan ddisgyblion/staff/cwmni trefnu yn cydymffurfio â chanllawiau paratoi bwyd. | | | | | | |
| **7.** | Os bydd symptomau sy'n arwydd o salwch heintus yn digwydd, dylid ceisio gwahanu'r staff/disgybl oddi wrth eraill a gofyn am sylw meddygol. | | | | | | |
| **8.** | Cynghorir brechiadau teithio priodol a chaiff hyn ei gyfathrebu i bawb sy'n mynd ar y daith.<br><br>*Sylwer.* Mae NaTHNaC (https://travelhealthpro.org.uk/)*a gwefan y GIG (https://www.nhs.uk/conditions/travel-vaccinations/)yn ffynonellau gwybodaeth credadwy.* | | | | | | |